

**This is not a circular**  
Owner/Occupier

15 March 2021

**Ref: CV/ZS/N51Radyr/150321**

Hello

### **Welsh Water work in your area**

As part of our £2 million investment project in Cardiff to upgrade the water network, we need to carry out essential work in your area and we wanted to let you know what you can expect.

#### **What will we be doing?**

To ensure we continue to provide you with a first-class supply of drinking water, we need to abandon a section of an old water pipe and connect it to an adjacent pipe. This will take place along Ffordd Las, Drysgol Road, Dan-y-Bryn Avenue, Park Road, and Windsor Avenue in Radyr.

#### **What can you expect?**

This work will begin on **Monday 22<sup>nd</sup> March** and should be completed **by the end of April 2021**.

We'll be working with **Morrison Utility Services** to help us get the work done. They'll be working **Monday to Friday between 7.30am and 5.30pm**, but sometimes they may need to work outside these hours and on the weekends to get the work done quickly.

We have been working closely with the local authority and have agreed to set up a temporary compound on the highway on Ffordd Las. You may also notice us carrying out small excavations on the highway to allow us to connect properties onto the water pipe. Please be assured, we will keep access open for residents and will do our best to minimise any potential disruption.

There should be no disruption to your water supply while we carry out this work.

#### **Traffic management**

For the safety of motorists, pedestrians and our workforce, we will need to close Ffordd Las for two weeks. During this time, there will be a diversion route in place which will be clearly signposted – please see the map on the following page.



We will also need to use either Give & Take traffic management or traffic lights at the following junctions:

- Drysgol Road and Dan-y-Bryn Avenue
- Dan-y-Bryn Avenue and Park Road
- Park Road and Windsor Avenue

### Working during the Covid-19 outbreak

We want to reassure our customers that our team will be following Government guidelines on working during this time to ensure they keep you and themselves safe. We know this is a very challenging time but please be assured that we are – and will continue – to do everything we can to continue providing our essential services.

### Want to know more?

We hope we've provided you with enough information, but if you would like to find out more visit [www.dwrcymru.com/InYourArea](http://www.dwrcymru.com/InYourArea). **Future updates about our work will be posted on our website.**

We would also like to leave the community in a better place once we complete our work. If you live in the area and you're fundraising for projects that benefit the community, you could receive funding from our Community Fund. To find out more visit [www.dwrcymru.com/Community-Fund](http://www.dwrcymru.com/Community-Fund)  
We'd just like to say thank you in advance for bearing with us while the work takes place and we'll be sure to get everything done as quickly as possible.

Yours sincerely



Camille Valmalle - Community Support Officer

We're not-for-profit. Every single penny we make goes back into looking after your water and environment. You can contact us in Welsh or English.

Rydym yn gwmni nid-er-elw. Mae pob ceiniog a wnawn yn mynd i ofalu am eich dŵr a'ch amgylchedd. Cysylltwch a ni yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Dŵr Cymru Cyf (2366777)

A limited Company registered in Wales  
Cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestru yng Nghymru:

Pentwyn Road, Nelson, Treharris CF46 6LY

**Nid cylchlythyr yw hwn Y**  
Perchennog/Deiliad

15 Mawrth 2021  
**Cyf: CV/ZS/N51Radyr/150321**

Helo

### **Gwaith Dŵr Cymru yn eich ardal chi**

Fel rhan o'n prosiect buddsoddi gwerth £2,000,000 yng Nghaerdydd i uwchraddio'r rhwydwaith dŵr, mae angen i ni wneud gwaith hanfodol yn eich ardal chi ac rydym yn ysgrifennu i ddweud beth y gallwch ei ddisgwyl.

#### **Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu cyflenwad o ddŵr yfed o'r safon uchaf i chi, mae angen i ni roi'r gorau i ddefnyddio darn o'r hen bibell ddŵr a chysylltu'r bibell ag un arall gerllaw. Bydd hyn yn digwydd ar hyd Ffordd Las, Drysgol Road, Dan-y-Bryn Avenue, Park Road a Windsor Avenue yn Radur.

#### **Beth allwch chi ei ddisgwyl?**

Bydd y gwaith yn dechrau **ddydd Llun 22 Mawrth** a dylai fod wedi'i gwblhau **erbyn diwedd Ebrill 2021**.

Byddwn yn cydweithio â **Morrison Utility Services** a fydd yn ein helpu i wneud y gwaith. Byddant yn gweithio **o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7.30am a 5.30pm**, ond weithiau gall fod angen iddynt weithio y tu allan i'r oriau hyn ac ar benwythnosau er mwyn gorffen y gwaith yn gyflym.

Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol ac rydym wedi cytuno i greu compownd dros dro ar y briffordd ar Ffordd Las. Yn ogystal, gallech ein gweld yn cloddio tyllau bach ar y briffordd fel y gallwn gysylltu tai â'r bibell ddŵr. Gallwn eich sicrhau y bydd y trigolion yn dal i gael mynd a dod ac y gwnawn ein gorau i greu cyn lleied o ffwdan ag y gallwn.

Ni ddylai'r gwaith amharu ar eich cyflenwad dŵr.

#### **Rheoli traffig**

Er mwyn cadw modurwyr, cerddwyr a'n gweithwyr yn ddiogel, bydd angen i nii gau Ffordd Las am bythefnos. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn trefnu gwyrriad a chodir arwyddion clir i nodi ffordd i fynd – mae map ar y dudalen nesaf.



Bydd angen i ni ddefnyddio dull rheoli traffig Cymryd a Rhoi neu oleuadau traffig yn y cyffyrdd isod:

- Drysgol Road a Dan-y-Bryn Avenue
- Dan-y-Bryn Avenue a Park Road
- Park Road a Windsor Avenue

### Gweithio yn ystod argyfwng COVID-19

Gallwn sicrhau ein cwsmeriaid y bydd ein tîm yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth wrth weithio yn ystod y cyfnod hwn er mwyn eich cadw chi a hwythau'n ddiogel. Gwyddom ei fod yn amser anodd iawn, ond gallwn eich sicrhau ein bod – ac y byddwn – yn gwneud ein gorau glas i barhau i ddarparu ein gwasanaethau hanfodol.

### Hoffech chi wybod rhagor?

Gobeithio'n bod wedi rhoi digon o wybodaeth i chi ond os hoffech wybod rhagor, ewch i [www.dwrcymru.com/YnEichArdal](http://www.dwrcymru.com/YnEichArdal). Byddwn yn rhoi newyddion am ein gwaith ar ein gwefan.

Hoffem adael y gymuned mewn gwell sefyllfa pan fyddwn wedi cwblhau ein gwaith. Os ydych yn byw yn yr ardal – a'ch bod yn codi arian at brosiectau er budd y gymuned, gallech gael arian o'n Cronfa Gymunedol. Os hoffech wybod rhagor ewch i [www.dwrcymru.com/Cronfa-Gymunedol](http://www.dwrcymru.com/Cronfa-Gymunedol) Diolch ymlaen llaw am fod yn amyneddgar yn ystod y gwaith. Byddwn yn siŵr o'i orffen mor gyflym ag y gallwn.

Yn gywir



Camille Valmalle - Swyddog Cymorth Cymunedol

We're not-for-profit. Every single penny we make goes back into looking after your water and environment. You can contact us in Welsh or English.

Rydym yn gwmni nid-er-elw. Mae pob ceiniog a wnawn yn mynd i ofalu am eich dŵr a'ch amgylchedd. Cysylltwch a ni yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Dŵr Cymru Cyf (2366777)

A limited Company registered in Wales  
Cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestru yng Nghymru:

Pentwyn Road, Nelson, Treharris CF46 6LY